| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **02 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Rhagolygon Ysgolion** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth a codi ymwybyddiaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

Darparwyd rhagolwg cyllidol 3 mlynedd i ysgolion ar 21 Tachwedd 2024 ar sail cyfrifiad nifer disgyblion Medi 2024 -

1. Mae niferoedd **cynradd** wedi lleihau 182 disgybl rhwng Medi 2023 a Medi 2024 ac yn arwain at leihad o £338mil yn y cyllid fydd yn cael ei ddatganoli yn 2025/26. Mae'r ysgolion eu hunain yn rhagweld lleihad pellach o 144 disgybl erbyn 2025 a 134 erbyn 2026. Felly lleihad niferoedd cynradd o 460 disgybl gwerth oddeutu £1.2miliwn dros y cyfnod.

2. Yn y sector **uwchradd** mae rhaniad yn sail cyllido –
   CA3 a CA4 yn cael ei gyllido gan Cyngor Gwynedd. Mae lleihad o 75 disgybl rhwng 2023 a 2024 yn arwain at leihad cyllid o £248mil yn 2025/26 Mae'r ysgolion yn rhagweld cynydd dros y ddwy flynedd wedyn, ond rydym am roi cyfle pellach i'r ysgolion adolygu eu rhagolygon o ystyried yr hyn ydan ni'n weld yn y cynradd gyda niferoedd yn lleihau. Byddwn yn gweithio gyda'r ysgolion i wella sail y rhagolygon a rhoi gwybodaeth mwy dibyniadwy o ran cynllunio ymlaen.

   6ed dosbarth yn cael ei gyllido gan gorff newydd MEDR. Mae lleihad o 23 disgybl rhwng 2023 a 2024 yn arwain at leihad cyllid o £92mil yn 2025/26 Mae'r ysgolion yn rhagweld cynydd dros y ddwy flynedd wedyn, ond fel gyda niferoedd CA3 a CA4 mi fyddwn yn ail-ymweld â hyn.

   Mae'r ysgolion uwchradd yn wynebu lleihad cyllidol o £248mil a £92mil, cyfanswm o £340mil erbyn 2025/26.

3. Yn yr sector **dilynol** mae niferoedd yn gyfuniad o newid cynradd ac uwchradd, gyda 32 disgybl gydol oes yn llai rhwng 2023 a 2024 yn arwain at leihad o £56mil yn y cyllid. Byddwn yn ail-ymweld a rhagolygon oedran uwchradd gyda'r ysgolio dilynol am 'r un rheswm fel sydd wedi'i nodi uchod.

4. Nid ydym yn gweld cynnydd yn nifer disgyblion **arbennig**, gan bod y ddwy ysgol bron yn 'llawn' ac nad oes llawer o gapasiti ychwanegol. Mae Gwaith yn mynd rhagddo i adolygu dwysedd angen y disgyblion a gall hyn arwain at gynnydd neu leihad yn y cyllid ar gyfer 2025/26.

5. Mae crynodeb o effaith niferoedd ar ddyraniadau a grantiau ysgolion am 2025/26 wedi'i atodi (**atodiad 1**) sy'n dangos lleihad o £1.177miliwn yn cynnwys popeth ydyn yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd –

   - Cynradd £848mil
   - Dilynol £144mil
   - Uwchradd £176mil
   - Arbennig £10mil

6. Wrth gynllunio ar gyfer 2025/26 ac ymlaen, rhaid ystyried bod ysgolion wedi defnyddio gwerth £3.784miliwn i osod cyllidebau eleni a bydd hyn hefyd yn her sylweddol i wynebu os nad oes toriadau staff/adnoddau wedi digwydd yn 2024/25. Heblaw bod ysgol yn rhagweld cynnydd niferoedd i greu mwy o gyllid, mae defnyddio balansau yn cael yr effaith o ohirio unrhyw doriadau. Ateb unwaith ac am byth ydi defnydd o balansau.

7. Tydi setliad y Cyngor na grantiau ysgolion am 2025/26 wedi'u cadarnhau hyd yma. Nid oes gwarant bod pob grant yn parhau nac yn cynyddu/lleihau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan eu cyllideb ar 10 Rhagfyr a bydd setliad cynghorau lleol yn dilyn.

   Yn sgil negeseuon am sefyllfa cyllidol y Cyngor mae'n anorfod bydd ysgolion yn wynebu toriad yn 2025/26. **NID** oes penderfyniad am lefel y toriad hyd yma.

Argymhelliad
Derbyn y wybodaeth.